Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981

Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid 2010
Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010

Animal & Plant Health Agency

# Cais am Drwydded i Gynnal Crynhoad/Crynoadau Anifeiliaid at Ddiben Gwerthu, Casglu i'w Hanfon Ymlaen o fewn Prydain Fawr, Arddangos neu Archwilio er mwyn Cadarnhau bod yr Anifeiliaid yn meddu ar Nodweddion Brîd Penodol

**Nodiadau Pwysig**

- Dylid cyflwyno ceisiadau am drwydded fel a ganlyn:
  - ar gyfer Lloegr: Animal and Plant Health Agency, One Health CSC, County Hall, Spetchley Road, Worcester, WR5 2NP neu e-bost i CSCOneHealthAGO@apha.gov.uk
  - ar gyfer Cymru: Gwasanaethau Maes APHA, Swyddfeydd Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN neu e-bost i APHA.CymruWales@apha.gov.uk
- Dylid anfon copi o'r ffurflen gais i'ch Awdurdod Lleol (ALl) (fel arfer yr Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd).
- Cwblhewch Rannau A, B, C a D ac atodwch y dogfennau ategol gofynnol fel y'u rhestrir yn Rhan E. Ni dderbynnir ffurflenni anghyflawn.
- Mae canllawiau ar yr amodau ar gyfer gweithredu crynhoad o dan y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (AGO), a sut i wneud cais, ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/get-a-licence-to-hold-an-animal-gathering.cy.
- **Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU**

## Rhan A - Manylion yr ymgeisydd

1. Enw a chyfeiriad cyswllt yr unigolyn a fydd yn gweithredu fel y trwyddedai: (sef yr unigolyn a fydd yn gyfrifol am drefnu crynoadau anifeiliaid o dan y drwydded)

Cod post:

2. Swydd/rôl yr ymgeisydd

3. Rhif ffôn cyswllt (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

4. Rhif ffôn symudol (os oes un)

5. Rhif Ffacs. (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

6. Cyfeiriad e-bost (os oes un)

7. Gwefan (os oes un)

## Rhan B - Manylion y Swyddog Bioddiogelwch

1. Enw

2. Rhifau ffôn cyswllt (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol) a ffôn symudol

## Rhan C - Manylion y safle i'w drwyddedu

1. Enw'r digwyddiad y gwneir cais ar ei gyfer

2. Rhif unigryw'r daliad ar gyfer safle'r digwyddiad

3. Perchennog/Deiliad y safle

4. Enw a chyfeiriad post y safle

Cod post:

5. Rhif Ffôn: (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

6. Rhif Ffacs. (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

7. Cyfeiriad e-bost (os oes un)

8. Gwefan (os oes un)

| |
|---|
| |

9. Ai cais i adnewyddu trwydded bresennol yw'r cais hwn?

Ie ☐ Nac oes ☐

Os Ie

A oes unrhyw newidiadau i rannau A i C o gymharu â'r llynedd?

Oes ☐ Na ☐

Os oes, nodwch y newidiadau yma

| |
|---|
| |

10. Math o grynhoad/grynoadau anifeiliaid y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer:

- Gwerthiant ☐
- Sioe a gwerthiant ☐
- Sioe, gan gynnwys arddangosfa ac archwilio brîd ☐
- Canolfan Gasglu ar gyfer: ☐

Anfon ymlaen o fewn Prydain Fawr ar gyfer magu neu fridio

Anfon ymlaen o fewn Prydain Fawr yn uniongyrchol i ladd-dy ☐

**Efallai y bydd angen trwydded ar wahân arnoch er mwyn cynnal sioe ar safle gwerthu presennol - gofynnwch am arweiniad gan APHA.**

11. A yw'r ardal(oedd) anifeiliaid:

yn balmantog ☐ ddim yn balmantog ☐ y ddau ☐

12. Os oes angen cymeradwyaethau ychwanegol arnoch, neu os oes angen i chi adnewyddu cymeradwyaethau ychwanegol mewn perthynas â'r crynoadau hyn, ticiwch:

- Cyfleuster Daliad Penodedig (BHF) ☐
- Marchnad TB-eithriedig (marchnad werdd) ☐
- Crynhoad Lladd TB (Marchnad goch) ☐
- Arwerthiant Arbennig TB (Oren) ☐

13. A oes trwydded bresennol o dan AGO 2010 ar gyfer gweithrediadau ar y safle hwn o dan rif daliad gwahanol?

Oes ☐ Nac oes ☐

14. Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â gwerthiannau a chasgliadau rheolaidd, nodwch y manylion canlynol:

| **Diwrnodau Crynoadau rheolaidd** | **Amser Dechrau *** | **Ardaloedd Anifeiliaid i'w defnyddio, fel y'i diffinnir ar gynllun y safle (Adran E)** | **Math o Grynhoad. Nodwch p'un a yw'n werthiant neu'n gasgliad, p'un a yw'n grynhoad lladd penodedig ('coch') a ph'un a yw'n ofynnol iddo fod yn TB eithriedig, dan gyfyngiadau TB ac ati. Nodwch hefyd nifer yr anifeiliaid a ddisgwylir a'u dosbarthiadau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| Manylion digwyddiadau arbennig rheolaidd | | | |

(*) Ni ddylai'r cyfnod cyrraedd fod yn fwy na 48 awr o'r adeg pan fydd y safle trwyddedig ar agor i dderbyn anifeiliaid. Ar ôl hynny, os bydd angen estyniad mewn perthynas â chrynhoad penodol, cysylltwch ag APHA ymlaen llaw.

15. Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â sioeau, neu sy'n ymwneud â gwerthiannau neu gasgliadau penodol heblaw am y rhai rheolaidd a restrir uchod, rhowch y manylion canlynol

| Dyddiad ac amser dechrau'r digwyddiad* | Dyddiad ac amser gorffen y digwyddiad* | (Sioeau) Dyddiadau y mae ar agor i'r cyhoedd | Dyddiadau ac amseroedd mynediad i anifeiliaid os yw'r cyfnod yn fwy na 48 awr** | Ardaloedd Anifeiliaid i'w defnyddio, fel y'i diffinnir ar gynllun y safle (Adran E) | Math o Grynhoad. Nodwch p'un a yw'n sioe, sioe yn cynnwys gwerthiant, gwerthiant neu gasgliad, p'un a yw'n grynhoad lladd penodedig ('coch') a ph'un a yw'n ofynnol iddo fod yn TB eithriedig, dan gyfyngiadau TB at acti (gwerthiannau a chasgliadau) neu ph'un a chaiff gwartheg eu cadw o fewn gofod awyr a rennir (***). Nodwch hefyd nifer yr anifeiliaid a ddisgwylir a'u dosbarthiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

__(*) Y dyddiadau pan fydd yr anifeiliaid ar y safle.
(**) Rhaid trafod hyn gydag APHA cyn hysbysebu amseroedd y digwyddiad. Bydd ond yn cael ei gytuno ar gyfer digwyddiadau penodol.
(***) Pan gaiff gwartheg mewn sioeau eu cadw o fewn gofod awyr a rennir (gan gynnwys pebyll mawr), bydd angen cynnal profion TB cyn symud arnynt.

16. Os bydd crynoadau gwahanol yn defnyddio ardaloedd nad ydynt yn balmantog gwahanol, nodwch hyn ar gynllun y safle (Adran E). Ni ellir ailddefnyddio ardal nad yw'n balmantog benodol o fewn 30 diwrnod.

17. Os caiff adar caeth eu cynnwys mewn unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir ar y safle hwn, nodwch y manylion canlynol a byddwch yn ymwybodol o'r Drwydded Gyffredinol ar GOV.UK yn https://www.gov.uk/government/publications/bird-gatherings-general-licence a'i hamodau, gan gynnwys gofynion ychwanegol o ran cadw cofnodion:

| | |
|---|---|
| Dyddiad y digwyddiad (dyddiadau'r digwyddiadau) | |
| Diben y crynhoad (crynoadau) (sioe/gwerthiant): | |
| Y math o adar a nifer yr adar a ddisgwylir: | |

## Rhan D - Cais am drwydded i gynnal crynhoad anifeiliaid

**Datganiad**
**RHAID i ymgeisydd y drwydded a enwir yng nghwestiwn 1, Rhan A lofnodi'r datganiad**

**Datganaf drwy hyn:**

- fod y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r ffurflen gais hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- Cytunaf i hysbysu APHA ar unwaith os bydd newid sylweddol o ran rheolwyr neu staff neu os bydd y safle trwyddedig yn destun gwaith atgyweirio strwythurol, gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu sylweddol.
- Rwyf wedi darllen ac wedi deall Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010/Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010 a holl amodau'r drwydded yn yr Atodlen gysylltiedig. Rwyf wedi nodi fy nghyfrifoldeb fel trwyddedai i fodloni'r gofynion o dan Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010/Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010 ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff amodau'r drwydded eu bodloni bob amser ac y bydd pawb sy'n dod i'r crynhoad anifeiliaid yn cydymffurfio â'r amodau hynny. Rwyf mewn sefyllfa i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | Swydd | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |

**DIOGELU DATA**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## Rhan E - Dogfennau i'w cyflwyno gyda'r cais hwn

Cynllun o'r safle yn dangos maint y safle i'w drwyddedu, yr ardaloedd anifeiliaid, ardaloedd palmantog ac ardaloedd nad ydynt yn balmantog, pwyntiau bioddiogelwch ☐

**Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid 2010 - Cymru a Lloegr (fel y'i diwygiwyd)** (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel ‘y ddeddfwriaeth’)

### Atodlen Amodau

**1. Amodau Cyffredinol**

a) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau'r canlynol:

i) y cydymffurfir â'r atodlen amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded
ii) y bydd Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Rheoli Clefydau ar gael ar y safle sy'n cynnwys o leiaf y wybodaeth a gynhwysir yn nogfen AGO04
iii) y bydd cynllun (cynlluniau) wrth gefn ar waith hefyd i ymdrin â'r canlynol: methiant i lanhau a diheintio'r safle (os yw'n balmantog), methiant y system darllen tagiau clust electronig os caiff ei defnyddio, a digwyddiadau lles anifeiliaid yn y crynhoad
iv) bydd rhestr gyfredol o fanylion cyswllt ar gael ac i'w gweld ar y safle yn ystod crynhoad: gan gynnwys rhifau ffôn ar gyfer APHA, yr Awdurdod Lleol (ALl), y trwyddedai a'r swyddog bioddiogelwch

b) Rhaid i'r trwyddedai benodi swyddog bioddiogelwch (gellir penodi'r trwyddedai a enwir) i fonitro cydymffurfiaeth â'r drwydded ac â'r ddeddfwriaeth.

c) Rhaid i'r trwyddedai gymryd pob cam rhesymol i atal clefydau rhag lledaenu i'r safle trwyddedig, o fewn y safle trwyddedig ac oddi ar y safle trwyddedig yn ystod crynoadau anifeiliaid.

d) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau mai dim ond ar gerbyd y bydd anifeiliaid yn dod i'r ardal anifeiliaid ac yn gadael yr ardal honno ac mai dim ond yn yr ardal anifeiliaid y caiff anifeiliaid eu dadlwytho o gerbydau a'u llwytho ar gerbydau.

e) Rhaid i'r trwyddedai godi a chynnal a chadw ffens o amgylch y safle trwyddedig er mwyn atal anifeiliaid rhag dianc.

f) Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r ALI ac APHA am yr adegau pan gaiff y safle trwyddedig ei ddefnyddio fel crynhoad anifeiliaid gan roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd.

g) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau y caiff unrhyw halogiad gweladwy ar yr holl gyfarpar a oedd ar gael i'r anifeiliaid ei lanhau ac wedyn rhaid diheintio'r cyfarpar gan ddefnyddio diheintydd cymeradwy ar ôl i'r anifail olaf adael a chyn y crynhoad nesaf.

h) Ni ddylai'r trwyddedau ganiatáu i grynhoad anifeiliaid ddigwydd hyd nes y bydd 27 diwrnod wedi mynd heibio o'r dyddiad y gadawodd yr anifail olaf y safle trwyddedig yn flaenorol (amod 6 isod) oni fydd yr ardal anifeiliaid yn balmantog ac y gellir ei diheintio, a'i bod wedi cael ei glanhau a'i diheintio ers i'r anifail olaf adael yn flaenorol (amod 4)

**2. Staff sy'n gweithio yn yr ardal anifeiliaid**

Rhaid i'r trwyddedai sicrhau'r canlynol:

a) y caiff y cofnodion canlynol eu cadw ar y safle trwyddedig er mwyn gallu olrhain achosion o glefydau hysbysadwy a amheuir ar y safle:

i) enwau a chyfeiriadau pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr ardal anifeiliaid,

ii) gwybodaeth am eu cyswllt rheolaidd â da byw ar ffermydd ac eithrio'r safle trwyddedig,

b) Caiff y cofnodion eu cadw'n gyfredol,
c) Caiff y cofnodion eu cadw am chwe mis.

**3. Gweithrediadau ar unrhyw ddiwrnod lle y cynhelir crynhoad anifeiliaid**

Rhaid i'r trwyddedai sicrhau y cedwir cofnodion digonol i allu olrhain anifeiliaid a cherbydau da byw. Dylid cadw'r cofnodion hyn am chwe mis a rhaid eu cyflwyno pan wneir cais am hynny gan swyddog awdurdodedig.

**4. Cyfleusterau ar safle trwyddedig lle y mae un neu fwy o ardaloedd anifeiliaid palmantog y gellir eu glanhau a'u diheintio**

a) bod llawr yr ardal(oedd) anifeiliaid palmantog a'r holl osodiadau a ffitiadau yn yr ardal(oedd) anifeiliaid hyn mewn cyflwr da ac y gellir eu glanhau a'u diheintio yn unol â Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid 2010 ac y cânt eu glanhau a'u diheintio'n briodol rhwng crynoadau.

b) bod ardal ar wahân ar gyfer glanhau a diheintio cerbydau a ddefnyddiwyd i gludo anifeiliaid, a bod diheintydd cymeradwy ar gael yn yr ardal honno ar ddiwrnod(au) pob crynhoad. Gellir glanhau a diheintio'r ardal hon ei hun a chaiff ei glanhau a'i diheintio ar ôl pob crynhoad.

c) rhaid glanhau a diheintio holl olwynion, bwâu olwynion a giardau olwynion unrhyw gerbyd yr halogwyd ei olwynion drwy yrru o fewn yr ardal a ddefnyddiwyd gan anifeiliaid (gan gynnwys cerbyd halio) cyn i'r cerbyd adael y crynhoad.

**5. Cyfleusterau ar safle trwyddedig lle y defnyddir mwy nag un ardal anifeiliaid**

Os oes angen tywys anifeiliaid rhwng unrhyw ardaloedd anifeiliaid, rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr ardaloedd hynny:

i) yn cydffinio, neu
ii) wedi'u cysylltu gan lwybrau cerdded dynodedig.

**6. Cyfleusterau a gweithdrefnau ar safle trwyddedig lle y mae un neu fwy o ardaloedd anifeiliaid nad ydynt yn balmantog na ellir eu glanhau na'u diheintio**

Ni chaiff unrhyw unigolyn ganiatáu i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal ar ardaloedd anifeiliaid nad ydynt yn balmantog hyd nes y bydd 27 diwrnod wedi mynd heibio o'r dyddiad y gadawodd yr anifail olaf yr ardal nad yw'n balmantog ac y bydd unrhyw gyfarpar a oedd ar gael i'r anifeiliaid wedi'i lanhau a'i ddiheintio.

7. **Gwaredu gwellt a charthion anifeiliaid**

Rhaid i'r trwyddedai sicrhau y caiff unrhyw wellt a charthion anifeiliaid naill ai:

a) eu dinistrio,
b) eu trin er mwyn dileu'r risg y caiff clefydau eu lledaenu, neu
c) eu gwaredu er mwyn sicrhau na ddaw anifeiliaid i gysylltiad â nhw.

Cedwir cofnod o'r ffordd y gwaredwyd y deunyddiau hyn.

---

**Nodiadau er Gwybodaeth** (Nid yw'r rhain yn rhan o amodau'r drwydded)

- Mae'n drosedd cynnal crynhoad anifeiliaid at ddiben gwerthu, gan gynnwys sioe neu arddangosfa (os yw'n berthnasol), neu i'w hanfon ymlaen o fewn Prydain Fawr heb drwydded gan Arolygydd Milfeddygol.
- Un o ofynion Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) yw na chaniateir i unrhyw un gyflwyno anifail amhriodol i'w werthu mewn marchnad. Mae'r diffiniad o 'amhriodol' yn cynnwys anifail 'â chlefyd'.
- Bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y drwydded yn cyfleu'r un ystyr â'u hystyr yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010/Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010 oni chânt eu diffinio fel arall neu os bydd y cyd-destun yn mynnu fel arall.
- Mae methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010/Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010 a gall olygu y caiff unigolyn ei erlyn ac y cyflwynir cosbau llym os caiff ei gollfarnu.
- Yn ogystal, os caiff darpariaethau'r drwydded neu Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010/Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010 eu torri, gellir atal y drwydded, cyflwyno amodau ychwanegol neu ei diddymu heb rybudd pellach.

**Mae methiant i gydymffurfio â'r mesurau sy'n ofynnol yn y drwydded hon yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Y gosb os caiff unigolyn ei gollfarnu o drosedd o dan yr adran hon yw uchafswm o chwe mis yn y carchar a/neu ddirwy ddiderfyn.**

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

| **Stamp HM3** | Enw: | | Dyddiad Derbyn: | | WS ID: | |
|---|---|---|---|---|---|---|